


Cymuned Leol a Phrosiectau
Cyflogaeth yng Ngwent

# DEWCH O HYD I'CH LLWYBR

PLATFFORM

Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol

## BYDDWCH YN CHI'CH HUN MEWN LLE CYFEILLGAR

**Cyfarfod Croeso**
Mae Croeso yn gyfarfod wythnosol hamddenol, heb bwysau. Mae pobl yn dod draw i sgwrsio mewn awyrgylch cyfeillgar ac mae yna grefftau, cerddoriaeth a phrosiectau creadigol eraill a chyrsiau lles dewisol.

Mae yna Gydweithfa Bwyd, felly mae ffrwythau a llysiau ffres a chynnyrch arall ar gael am brisiau fforddiadwy. Rydym hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Phrosiect Gardd Gymunedol Taraggan ym Margoed, felly mae cyfleoedd i gael eich dwylo'n fudr ac i gael eich amgylchynu gan natur.

**Croeso – yma i chi fagu hyder ar eich cyflymder eich hun, ac yn eich ffordd eich hun.**

## DEWCH O HYD I'CH LLWYBR YMLAEN

**Academi Platfform**
Os ydych chi wedi bod allan o waith oherwydd heriau iechyd meddwl, neu'n teimlo bod yr heriau hynny'n effeithio ar eich hyder, gallwn ni weithio gyda chi i weithio allan eich cam nesaf.

Mae Academi Platfform yn canolbwyntio ar eich nodau, cryfderau a galluoedd, ac yn darparu hyfforddiant ac ysbrydoliaeth i oresgyn yr heriau rydych chi'n hwynebu, dysgu'r sgiliau rydych chi angen, a meithrin yr hyder rydych chi eisiau.

**Barod i symud ymlaen?** Os ydych chi dros 25 oed, yn anactif yn economaidd neu wedi bod yn ddi-waith yn hir-dymor gall Academi Platfform weithio gyda chi i greu rhaglen wedi'i theilwra'n unigol. Bydd hyn yn eich helpu i gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddi a chyflogaeth.

**"Dechreuais wneud ffrindiau.
Yna dechreuais fynychu cyrsiau.
Ac yna - dechreuodd fy hyder adeiladu.
Mae wedi codi fy mywyd.**

**Yn Platfform, gallaf gwrdd â phobl
sy'n fy adnabod yn dda a siarad â nhw.
Mae'r amgylchedd mor hamddenol yno,
sy'n gwneud imi deimlo'n gartrefol."**

Mynychwr a gwirfoddolwr

**"Rwy'n teimlo fy mod bellach wedi cwrdd â' fy mhobl'"**

Mynychwr

## PRYD BYNNAG Y BYDDWCH YN BAROD, SIARADWCH Â NI

**Croeso:** Galwch heibio ar unrhyw adeg rhwng 10:00yb – 12:30yp, bob dydd Mawrth (ac eithrio Gwyliau Banc) i Uned 2C, Foxes Lane, Parc Busnes Oakdale, Y Coed Duon, NP12 4AB.

I siarad â ni yn gyntaf, gweler isod.

**Academi Platfform:**
connect@platfform.org
01495 245802
platfform.org

FOOD CO-OPS

WCVA CGGC
Active Inclusion Fund
Cronfa Cynhwysiant Gweithredol

Wedi'i ariannu gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.